Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ty Dysgu

**Rhodfa Alexandra**
**Merthyr Tudful**
**CF47 9AF**

**Dyddiad yr arolygiad: Medi 2022**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Ty Dysgu

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ty Dysgu |
| Awdurdod lleol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Math o ysgol | Uned Cyfeirio Disgyblion |
| Darpariaeth breswyl? | Na |
| Darpariaeth ar fwy nag un safle? | Oes |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 39 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 39 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 27/09/2022 |

Mae Ty Dysgu yn Uned Cyfeirio Disgyblion (UCD) a gynhelir gan awdurdod lleol Merthyr Tudful. Mae'n addysgu disgyblion o 5-16 oed sydd ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol.

Mae'r ddarpariaeth yn gweithredu ar ddau safle. Mae un ar gyfer disgyblion rhwng pump ac unarddeg oed, sef Ty Dysgu Dowlais, a'r un arall, Ty Dysgu Homfray, ar gyfer disgyblion rhwng unarddeg ac 16 oed.

Mae 39 o ddisgyblion ar y gofrestr ar hyn o bryd. Mae dau ddeg pedwar o ddisgyblion yn mynychu'r ddarpariaeth uwchradd, a phymtheg yn mynychu'r ddarpariaeth gynradd. Ychydig iawn o ddisgyblion sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol neu sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol. Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion gofrestriad deuol gydag ysgol brif ffrwd. Mae gan ychydig dros hanner y disgyblion hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Nid yw'r UCD wedi cael ei harolygu o'r blaen, a chafodd ei hagor ym mis Medi 2018 gan ychwanegu darpariaeth sylfaen yn 2019.

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai'r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i'r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru, trwy'r ddolen isod: [fyysgolleol.llyw.cymru](fyysgolleol.llyw.cymru)

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

## Trosolwg

Mae gan ddisgyblion yn UCD Ty Dysgu ystod eang o anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol. Mae llawer o ddisgyblion yn cyrraedd yr UCD gyda hanes o bresenoldeb gwael, ac maent wedi colli cryn dipyn o addysg cyn dechrau yn yr UCD. O ganlyniad, mae ganddynt fylchau yn eu dysgu, ac efallai nad oes ganddynt lawer o hyder yn eu gallu eu hunain fel dysgwyr. Yn ychwanegol, mae rheoli eu hymddygiad eu hunain yn rhwystr ychwanegol iddynt rhag dysgu.

Yn ystod eu cyfnod yn yr UCD, lleiafrif o ddisgyblion yn unig sy’n mynychu’n rheolaidd sy’n gwneud cynnydd addas o’u mannau cychwyn unigol yn unol â’u hanghenion a’u gallu. At ei gilydd, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymateb yn briodol mewn gwersi. Mae datblygiad llythrennedd disgyblion yn gyfyngedig ac yn rhy araf oherwydd y diffyg cyfleoedd iddynt ddefnyddio’r medrau hyn ar draws y cwricwlwm. Mae lleiafrif o ddisgyblion yn datblygu eu medrau rhifedd yn briodol. Ar draws pob oedran, ceir cyfleoedd cyfyngedig i ddisgyblion ddatblygu eu medrau TGCh yn raddol dros gyfnod.

Yn ystod eu cyfnod yn yr UCD, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu perthnasoedd gweithio cryf gyda staff, ac mae hyn yn eu helpu i deimlo’n ddiogel a saff. Mae ychydig o ddisgyblion ag ymddygiad heriol, sy’n cynnwys problemau iechyd meddwl, yn dilyn amserlenni teilwredig rhan-amser, ac yn mynychu’r UCD am gyfnod byr yn unig yn ystod yr wythnos. Mae cynlluniau ar waith i’r disgyblion hyn drosglwyddo’n ôl i’r UCD yn amser llawn. Fodd bynnag, ychydig iawn ohonynt sydd wedi dechrau’r broses bontio hon, ac o ganlyniad, mae hyn yn cyfyngu ar eu cynnydd. Mae tua hanner y disgyblion sydd â chofnod presenoldeb gwael o’u hysgol flaenorol yn gwneud cynnydd cyfyngedig yn ystod eu cyfnod yn yr UCD.

At ei gilydd, nid yw’r UCD yn darparu cwricwlwm digon eang a chytbwys i ddiwallu anghenion eang ac amrywiol y disgyblion. Megis dechrau paratoi ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru y mae’r UCD. Mae ystod y profiadau dysgu ar gyfer yr holl ddisgyblion yn rhy gul ar draws yr UCD.

Mae staff yn casglu ystod addas o wybodaeth am asesiadau disgyblion. Mae’r asesiadau hyn yn canolbwyntio ar fedrau llythrennedd, rhifedd a lles disgyblion. Fodd bynnag, nid yw hyn wedi’i sefydlu’n dda, ac nid yw staff yn defnyddio’r asesiadau hyn yn ddigon effeithiol i olrhain a monitro cynnydd disgyblion. Nid yw’r asesiadau hyn yn llywio cynllunio yn y dyfodol yn ddigon da i gyflwyno ymyriadau priodol i ddiwallu anghenion disgyblion unigol.

Nid oes gan yr UCD brosesau cadarn ar waith ar hyn o bryd i olrhain a monitro cynnydd a lles disgyblion, gan gynnwys presenoldeb ac ymddygiad, wrth iddynt symud trwy’r UCD. O ganlyniad, nid ydynt yn nodi ac yn ymateb yn ddibynadwy i faterion a heriau perthnasol yn ddigon cynnar.

Nid oes gan arweinwyr weledigaeth ddigon strategol a chlir sy’n cael ei rhannu â gweddill y staff ar gyfer datblygu’r UCD a chodi safonau. Mae prosesau hunanwerthuso yn aneffeithiol ac nid ydynt wedi’u datblygu’n ddigonol gan arweinwyr. Mae’r rhan fwyaf o staff yn aneglur ynglŷn â beth yw’r blaenoriaethau ar gyfer cynllunio gwelliant yn yr UCD. Mae prosesau ar gyfer sicrhau ansawdd y

ddarpariaeth ar gyfer cynnydd disgyblion yn aneffeithiol. Mae’r polisi diogelu yn fanwl ac yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol am atgyfeirio. Fodd bynnag, mae gweithredu’r polisi yn anghyson ar draws yr UCD. Nid yw arweinwyr wedi nodi a mynd i’r afael â llawer o bryderon am ddiogelu yn yr UCD.

## Argymhellion

A1 Cryfhau rheoli diogelu a mynd i'r afael â'r diffygion a nodwyd yn ystod yr arolygiad

A2 Cryfhau ansawdd yr arweinyddiaeth strategol i sicrhau bod systemau hunanwerthuso'r UCD yn nodi blaenoriaethau ar gyfer gwella sy'n cyd-fynd â chodi safonau dysgu a lles

A3 Datblygu prosesau effeithiol i olrhain, monitro a gwerthuso cynnydd disgyblion

A4 Cryfhau'r cynnig cwricwlwm ar gyfer yr holl ddisgyblion

A5 Gwella presenoldeb disgyblion

## Beth sy'n digwydd nesaf

Yn unol â Deddf Addysg 2005, mae PAEM o'r farn fod angen mesurau arbennig o ran yr UCD hon. Bydd yr UCD yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr UCD bob tymor.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Mae gan ddisgyblion sy'n mynychu Uned Cyfeirio Disgyblion (UCD) Ty Dysgu ystod o anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol. Mae gan bron bob un o'r disgyblion hanes o bresenoldeb gwael yn yr ysgol. Mae ychydig ohonynt wedi bod allan o addysg am gryn amser. Yn ystod eu cyfnod yn yr UCD, lleiafrif o ddisgyblion yn unig sy'n mynychu'n rheolaidd sy'n gwneud cynnydd addas o'u mannau cychwyn unigol, yn unol â'u hanghenion a'u gallu.

At ei gilydd, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymateb yn briodol mewn gwersi. Fodd bynnag, nid yw athrawon bob amser yn sicrhau bod yr amcanion dysgu'n darparu digon o her i ymestyn disgyblion yn ddigon da trwy gydol y wers gyfan.

Mae lleiafrif o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cyson o ran datblygu eu medrau cymdeithasol a chyfathrebu, yn unol â'u hanghenion a'u mannau cychwyn unigol. Er enghraifft, maent yn gwrando, yn dilyn cyfarwyddiadau, yn cymryd eu tro ac yn cydweithio â staff addysgu ac â'i gilydd. Maent yn delio â'u gorbryderon ac yn datblygu eu gallu yn raddol i siarad â disgyblion eraill, staff ac ymwelwyr â'r UCD. Fodd bynnag, mae lleiafrif o ddisgyblion hŷn yn llai parod i ymgysylltu ag ymwelwyr neu'u cyfoedion. Hefyd, nid ydynt yn ymgysylltu'n dda â'u dysgu, ac nid ydynt yn gwrando'n ddigon da ar staff neu pan fydd eu cyfoedion yn siarad. Caiff hyn effaith negyddol ar eu cynnydd.

Mae lleiafrif o ddisgyblion iau yn datblygu eu medrau darllen yn briodol. Er enghraifft, maent yn defnyddio strategaethau dadgodio i'w helpu i ddarllen geiriau anhysbys fel "ache". Mae lleiafrif o ddisgyblion hŷn yn ysgrifennu'n briodol mewn ystod gyfyng o *genres* ac yn strwythuro eu hysgrifennu'n briodol, gan ddefnyddio brawddegau syml a chyfansawdd. Er enghraifft, maent yn ymarfer gwaith ysgrifenedig estynedig fel rhan o baratoi ar gyfer arholiadau trwy ddisgrifio agweddau ar y "Great Escape". Fodd bynnag, mae datblygiad eu llythrennedd yn gyfyngedig ac yn rhy araf, ar y cyfan, oherwydd y diffyg cyfleoedd iddynt ddefnyddio eu medrau ar draws y cwricwlwm. Nid oes gan fwyafrif o ddisgyblion ar draws yr UCD ddirnadaeth ddigon cryf o reolau sillafu, atalnodi a gramadeg sylfaenol, ac maent yn gwneud yr un camgymeriadau dro ar ôl tro. Mae gwelliant disgyblion dros gyfnod mewn darllen a deall a sillafu yn gyfyngedig.

Mae lleiafrif o ddisgyblion yn datblygu eu medrau rhifedd yn briodol. Mewn gwersi mathemateg, mae disgyblion yn defnyddio cysyniadau onglau i gyfrifo gwerthoedd coll yn gywir i ddatrys problemau. Ar draws y cwricwlwm, mae disgyblion yn dangos defnydd cadarn o rifedd ymarferol, er enghraifft wrth ddefnyddio clorian mewn gwyddoniaeth i fesur swm gofynnol o bowdr a jwg mesur i ychwanegu cyfaint penodol o ddŵr. Mae ychydig o ddisgyblion hŷn yn cymhwyso prosesau â sawl cam i gyfrifo atebion i broblem fathemategol. Fodd bynnag, mae mwyafrif o ddisgyblion ar draws yr UCD yn gwneud cynnydd cyfyngedig mewn asesiadau rhifedd ffurfiol dros gyfnod oherwydd y diffyg cyfleoedd i ddefnyddio'r medrau hyn yn gyson ar draws y cwricwlwm.

Mae lleiafrif o ddisgyblion yn gwneud defnydd priodol o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) i gefnogi eu dysgu. Ar draws pob oedran, mae cyfleoedd cyfyngedig i ddisgyblion ddatblygu eu medrau TGCh yn raddol dros gyfnod.

At ei gilydd, mae bron pob un o'r disgyblion ar draws yr UCD yn gwneud cynnydd cyfyngedig o ran datblygu eu medrau Cymraeg.

Mae mwyafrif o ddisgyblion yn dibynnu gormod ar gymorth staff i gyfeirio eu dysgu, ac nid ydynt yn datblygu medrau dysgu'n annibynnol sy'n briodol i oedran.

Nid yw'n briodol cymharu'r safonau y mae disgyblion yn eu cyflawni yn yr UCD gyda chyfartaleddau cenedlaethol na dadansoddi tueddiadau perfformiad grwpiau dros gyfnod oherwydd natur anghenion ymddygiadol, cymdeithasol ac emosiynol y disgyblion.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn gadael yr UCD gydag o leiaf un cymhwyster a gydnabyddir yn genedlaethol mewn cyrsiau sy'n briodol i'w hanghenion a'u galluoedd, ar y cyfan. Mae'r rhain yn cynnwys cymwysterau mewn ystod gyfyng o gyrsiau yn gysylltiedig â gwaith, yn cynnwys adeiladu, medrau coginio a chyllid personol.

Ym mlwyddyn academaidd 2021-2022, aeth pob un o'r disgyblion a oedd yn gadael yr UCD ymlaen i addysg bellach, hyfforddiant neu gyflogaeth.

## Lles ac agweddau at ddysgu

Yn ystod eu cyfnod yn yr UCD, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu perthnasoedd gweithio cryf gyda staff, ac mae hyn yn eu helpu i deimlo'n ddiogel ac yn saff. Dywed mwyafrif o ddisgyblion cynradd ac ychydig iawn o ddisgyblion uwchradd eu bod yn mwynhau mynychu'r UCD rhywfaint o'r amser, o leiaf. Fodd bynnag, mae mwyafrif o ddisgyblion yn dibynnu'n ormodol ar staff cymorth i gyfeirio eu dysgu ac nid ydynt yn datblygu medrau dysgu'n annibynnol sy'n briodol i oedran. O ganlyniad, nid oes gan y disgyblion hyn y gwydnwch bob amser i ymdopi pan fyddant yn gweld rhywbeth yn anodd neu'n cael rhywbeth yn anghywir yn eu gwaith.

Mewn gwersi, mae mwyafrif o ddisgyblion yn bwrw ymlaen â'u gwaith yn briodol, yn dilyn cyfarwyddiadau'n briodol ac yn dyfalbarhau gyda chymorth effeithiol gan staff. Mae mwyafrif o ddisgyblion yn dangos parch at ei gilydd, yn gwrando ar staff a chyfoedion ac yn cymryd eu tro. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o ddisgyblion yn dangos digon o ddiddordeb yn eu gwaith, ac maent yn aml yn gadael gwersi heb eu herio gan staff. Mae colli amser dysgu yn rheolaidd fel hyn yn cael effaith sylweddol ar eu cynnydd.

Mae disgyblion iau yn cymryd eu rôl ar y cyngor ysgol, a adferwyd yn ddiweddar, o ddifri, ac yn cydweithio â staff ar sawl gweithgaredd. Er enghraifft, fe wnaethant lanhau a thacluso'r ardaloedd yn yr awyr agored a photiau blodau, trefnu dathliad parti jiwbilî a phenderfynu ar dripiau diwedd blwyddyn ar gyfer cyfoedion. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn hyderus yn eu gallu i rannu syniadau a diddordebau gyda staff cyfarwydd. Er enghraifft, mae disgyblion yn teimlo y gwrandewir arnynt yn ystod eu sesiynau lles a bod staff yn rhoi dewis iddynt yn eu dysgu. Fodd bynnag, nid ydynt yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ffurfiol llais y disgybl, ac felly nid ydynt yn datblygu eu medrau rhesymu ac arwain yn ddigon da trwy gymryd rhan mewn trafodaethau sy'n cynnwys cymuned yr UCD.

Mae ychydig o ddisgyblion yn Ty Dysgu yn defnyddio eu medrau creadigol yn briodol i greu cynnyrch fel matiau diod ac addurniadau coeden i'w gwerthu fel rhan o weithgarwch menter adeg y Nadolig. Cyfrannodd ychydig iawn o ddisgyblion hŷn at brosiect arloesol i gynorthwyo pobl ifanc yn yr ardal. Creon nhw lyfryn gwybodaeth defnyddiol ar sut i gael cymorth ar gyfer agweddau pwysig fel iechyd meddwl, bwlio, rheoli cyfryngau cymdeithasol a bod yn ofalwr ifanc.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu dealltwriaeth addas o sut i aros yn ddiogel ar-lein, ac yn trafod hyn gyda staff ac ymwelwyr yn hyderus.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn yr UCD yn deall ac yn dilyn y polisi ymddygiad ac yn gwerthfawrogi'r gwobrau sydd ar gael am gyflawniad dros gyfnod. O ganlyniad, mae hyn yn helpu disgyblion i ddeall sut i reoli eu hymddygiad fel nad yw'n cael effaith negyddol ar eu dysgu.

Yn ystod yr arolygiad, roedd ymddygiad bron pob un o'r disgyblion sy'n mynychu'r UCD yn briodol, ar y cyfan. Nid oes modd rhoi sylwadau ar dueddiadau neu batrymau mewn ymddygiad dros gyfnod. Fodd bynnag, mae lefel y gwaharddiadau cyfnod penodol yn yr UCD yn parhau i fod yn uchel.

Adeg yr arolygiad, nid yw unrhyw ddisgyblion 15 i 16 oed yn mynychu eu hysgol bartner yn y brif ffrwd. Fodd bynnag, mae pob un o'r disgyblion 5 i 7 oed ac ychydig iawn o ddisgyblion rhwng 8 ac 14 oed yn mynychu eu hysgolion prif ffrwd o leiaf un diwrnod yr wythnos. O ganlyniad, mae cyfleoedd disgyblion i ailintegreiddio'n llwyddiannus i addysg brif ffrwd, lle bo'n briodol, yn gyfyngedig.

Mae ychydig o ddisgyblion ag ymddygiad heriol yn dilyn amserlenni teilwredig rhan-amser, ac yn mynychu'r UCD am gyfnod byr yn unig yn ystod yr wythnos. Mae cynlluniau ar waith i'r disgyblion hyn drosglwyddo'n ôl i'r UCD yn amser llawn. Fodd bynnag, mae ychydig iawn ohonynt wedi dechrau'r broses drosglwyddo hon, ac mae hyn yn cyfyngu ar eu cynnydd o ganlyniad.

Mae tua hanner y disgyblion sydd â chofnod presenoldeb gwael o'u hysgol flaenorol yn gwneud cynnydd cyfyngedig yn ystod eu cyfnod yn yr UCD. Pan fydd disgyblion hŷn yn mynychu'r UCD yn gyson, mae llawer ohonynt yn dangos gwydnwch ac ymroddiad i'w haddysg trwy deithio'n annibynnol i'r safle. Fodd bynnag, mae cyfraddau absenoldeb uchel a pharhaus mwyafrif o ddisgyblion yn cael effaith negyddol ar eu cynnydd, eu cyflawniad a'u lles. At ei gilydd, mae presenoldeb yn yr UCD yn parhau i fod yn rhy isel yn dilyn y pandemig.

### Addysgu a phrofiadau dysgu

At ei gilydd, nid yw'r UCD yn darparu cwricwlwm digon eang a chytbwys i ddiwallu anghenion eang ac amrywiol y disgyblion.

Mae gan y cwricwlwm ffocws priodol ar ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a medrau cymdeithasol disgyblion unigol. Fodd bynnag, nid yw gallu disgyblion i gymhwyso'r medrau hyn ar draws y cwricwlwm wedi'i ddatblygu'n ddigonol. Megis dechrau paratoi ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru y mae'r UCD. Ceir darpariaeth gyfyngedig ar gyfer y Gymraeg, a dim digon o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau TGCh yn raddol ar draws y cwricwlwm.

Mae ystod y profiadau dysgu ar gyfer pob un o'r disgyblion yn rhy gyfyng ar draws yr UCD. Caiff disgyblion hŷn gyfleoedd i gymryd rhan mewn addysg gorfforol yn

rheolaidd yn y ganolfan gymunedol leol, a chynhelir sesiynau addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh) wedi'u cynllunio'n briodol sy'n cefnogi lles ac iechyd meddwl disgyblion yn gadarnhaol. Yn ychwanegol, mae'r disgyblion yn elwa ar y profiadau hyn sy'n helpu datblygu eu dealltwriaeth o ffordd iach o fyw ac ymddygiadau. Mae'r UCD yn darparu ystod gyfyngedig o gyfleoedd i leiafrif o ddisgyblion hŷn ddyfnhau a datblygu eu dealltwriaeth o lenyddiaeth, er enghraifft Cirque Du Freak. Mae hyn hefyd yn cyflwyno disgyblion yn llwyddiannus i amrywiaeth o artistiaid fel Murakami, Dada ac artistiaid cerddoriaeth bop Americanaidd i annog disgyblion i greu cysylltiadau diwylliannol â'r stori.

Mae staff ar draws yr UCD yn darparu cymorth priodol ar gyfer datblygu medrau cymdeithasol ac emosiynol disgyblion ar draws y cwricwlwm. Mae bron pob un o'r staff yn datblygu perthnasoedd gweithio gyda'r disgyblion ac yn eu deall yn dda. Mae bron pob un o'r staff cymorth yn diwallu anghenion disgyblion mewn modd sensitif ac amserol. At ei gilydd, mae staff yn darparu modelau rôl cadarnhaol ar gyfer y disgyblion.

Mae staff yn casglu ystod addas o wybodaeth am asesiadau disgyblion. Mae'r asesiadau hyn yn canolbwyntio ar fedrau llythrennedd, rhifedd a lles disgyblion. Fodd bynnag, nid yw hyn wedi'i sefydlu'n dda, ac nid yw staff yn defnyddio'r asesiadau hyn yn ddigon effeithiol i olrhain a monitro cynnydd disgyblion. Nid yw'r gwerthusiadau hyn yn llywio cynllunio yn y dyfodol yn ddigon da i gyflawni ymyriadau priodol i ddiwallu anghenion disgyblion unigol.

Mae staff addysgu uwchradd wedi cryfhau'r cysylltiadau buddiol ag ysgol leol i gefnogi datblygiad pwnc, er enghraifft trwy wyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg (STEM). O ganlyniad, mae disgyblion yn dechrau cael cyfleoedd i ddatblygu eu medrau meddwl a datrys problemau trwy amrywiaeth o brofiadau ymarferol.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn meddu ar wybodaeth bwnc gadarn. Yn y gwersi mwyaf effeithiol, mae athrawon yn cynllunio'n briodol i ennyn diddordeb disgyblion, a'u cael i ymgysylltu â dysgu. Fodd bynnag, megis dechrau datblygu y mae'r cynllunio ar gyfer datblygu medrau ar draws yr UCD. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn rhoi adborth addas ar lafar ac yn ysgrifenedig i ddisgyblion i roi gwybod iddynt sut i wella'u gwaith. Fodd bynnag, nid yw disgyblion bob amser yn gweithredu ar yr adborth hwn yn gyson, ac maent yn aml yn ailadrodd yr un camgymeriadau, sy'n cyfyngu ar eu cynnydd. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn gwneud defnydd effeithiol o holi i ddatblygu meddwl disgyblion a gwirio eu dealltwriaeth. Er enghraifft, wrth gymharu eitemau o ddillad a dewis eu hoff ddilledyn, mae disgyblion yn ystyried y gost ac ymarferoldeb.

Mae adroddiadau blynyddol i rieni a gofalwyr yn darparu gwybodaeth briodol am gynnydd eu plentyn a'r camau nesaf yn nysgu eu plentyn.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae staff yn yr UCD yn darparu amgylchedd gofalgar i ddisgyblion er mwyn iddynt allu archwilio eu cryfderau cymdeithasol ac emosiynol a'u cryfderau dysgu. Maent yn adnabod y disgyblion yn dda ac yn empathig i'w hanghenion unigol.

Mae staff yn yr UCD yn cysylltu'n effeithiol â rhieni a gofalwyr yn rheolaidd. Mae'r CADY, ynghyd â gweithwyr proffesiynol perthnasol, yn sefydlu perthnasoedd

cynhyrchiol gyda rhieni a gofalwyr trwy gynnal llinellau cyfathrebu effeithiol, sy'n cynnwys cyfarfodydd rheolaidd ar y safle. Mae hyn yn cynorthwyo'r rhieni'n dda, ac yn eu galluogi i godi unrhyw faterion a allai effeithio ar ddysgu a lles eu plentyn. Caiff adroddiadau ffurfiol i rieni eu llunio bob blwyddyn, ac maent yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf i'w helpu i gefnogi addysg eu plentyn.

Mae gan yr UCD gysylltiadau sefydledig gydag ystod briodol o asiantaethau allanol. Mae hyn yn cynnwys yr heddlu cymunedol lleol a'r gwasanaeth lles addysg, yn ogystal â sefydliadau'r trydydd sector a'r gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid. Mae'r dull amlasiantaethol hwn yn cefnogi ymagwedd gydgysylltiedig at gynorthwyo disgyblion a'u teuluoedd yn dda. Yn ychwanegol, mae gan yr UCD fynediad addas at y gwasanaeth gyrfaoedd, sy'n cefnogi cyfnod pontio disgyblion i addysg bellach, hyfforddiant neu gyflogaeth yn dda.

Mae'r UCD yn darparu cyfleoedd ffurfiol cyfyngedig i ddisgyblion gymryd rhan mewn gweithgareddau gwneud penderfyniadau gwerth chweil. Caiff disgyblion iau gyfle i ymuno â'r cyngor ysgol a ailgyflwynwyd yn ddiweddar, ac maent yn cyfrannu'n bwrpasol at benderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywyd yn yr UCD. Er enghraifft, ailddyluniodd y cyngor ysgol y gofod awyr agored yn yr UCD yn ddiweddar. Fodd bynnag, nid yw'r cyngor ysgol yn gwbl gynrychioliadol o boblogaeth yr UCD gan nad oes cyngor ysgol ar y safle uwchradd. O ganlyniad, mae gallu disgyblion i ddylanwadu ar waith yr UCD yn eithriadol o gyfyngedig.

Er bod yr UCD yn adolygu amserlenni rhan-amser disgyblion yn rheolaidd, nid oes cynlluniau cadarn ar waith i sicrhau bod pob un o'r disgyblion yn mynychu'n amser llawn. Nid oes gan yr UCD brosesau trylwyr ar waith ar hyn o bryd i olrhain a monitro cynnydd a lles disgyblion, gan gynnwys presenoldeb ac ymddygiad, wrth iddynt symud trwy'r UCD. O ganlyniad, nid ydynt yn nodi ac yn ymateb yn ddibynadwy i faterion a heriau perthnasol yn ddigon cynnar. Nid yw staff yn mynd i'r afael â'r materion hyn yn ddigon da trwy ddarparu cymorth a her briodol, defnyddio strategaethau ymyrraeth a mentora neu hyfforddi unigolion neu grwpiau.

Mae'r UCD yn creu gwaelodlin briodol o gyrhaeddiad a lles disgyblion pan fyddant yn dechrau yno. Mae staff yn defnyddio'r wybodaeth hon yn dda i ddatblygu cynlluniau dysgu addas a gosod targedau priodol ar gyfer llythrennedd, rhifedd a lles mewn cynlluniau dysgu unigol (CDUau). Fodd bynnag, nid yw gweithdrefnau i olrhain a monitro cynnydd disgyblion o ran cyflawni eu targedau wedi'u datblygu'n ddigonol. At ei gilydd, mae dealltwriaeth y staff yn wael o ran sut i olrhain y cynnydd a wna disgyblion mewn pynciau ar draws y cwricwlwm er mwyn darparu her briodol a chynllunio'r camau nesaf yn eu dysgu.

Mae'r UCD yn creu cynlluniau cymorth ymddygiad defnyddiol ar gyfer disgyblion. At ei gilydd, mae'r cynlluniau buddiol hyn yn cynorthwyo staff i helpu'r disgyblion i reoli eu gorbryder a'u hymddygiad. Fodd bynnag, nid yw'r drefn ar gyfer rhannu'r cynlluniau hyn ar draws y tîm staff cyfan wedi'i datblygu'n ddigonol.

Mae trefniadau i hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol yn glir ac yn cael eu deall yn dda. Mae'r rhan fwyaf o staff yn gweithredu polisi ymddygiad yr ysgol yn gyson, ac mae'r UCD yn cofnodi digwyddiadau'n ymwneud ag ymddygiad heriol yn briodol. Fodd bynnag, nid oes prosesau ar waith i fonitro digwyddiadau o'r fath a nodi patrymau a thueddiadau penodol. Mae hyn yn cyfyngu ar allu'r UCD i ddangos unrhyw gynnydd y gallai disgyblion fod wedi'i wneud o ran gwella eu hymddygiad wrth gynllunio cyfleoedd iddynt ddychwelyd i'w hysgolion prif ffrwd.

Trwy'r cwricwlwm addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh) a ddiwygiwyd yn ddiweddar, mae disgyblion yn dechrau datblygu dealltwriaeth o'u lle yn y byd. Mae gwersi addysg gorfforol yn cynnwys cyflwyno amrywiaeth o chwaraeon fel medrau rygbi a phêl-droed, gweithgareddau yn y gampfa a'r pwll. Caiff disgyblion iau gyfle i gymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored fel dringo. Nid yw'r UCD yn darparu cyfleoedd amser cinio ac ar ôl yr ysgol ar gyfer disgyblion. Nid yw'r cyfleusterau ar y safle uwchradd yn galluogi i ddisgyblion chwarae gemau gyda'i gilydd yn ystod amser egwyl. Yn yr un modd, mae cyfleusterau ar y safle cynradd yn gyfyngedig. O ganlyniad, nid yw cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau corfforol a chymdeithasol fel rhannu, aros eu tro ac ystyried safbwyntiau pobl eraill, y tu allan i'r cwricwlwm ffurfiol, wedi'u datblygu'n ddigonol.

Mae trefniadau diogelu priodol ar waith gyda dau arweinydd wedi'u nodi fel yr arweinwyr diogelu dynodedig ar gyfer yr UCD. Mae'r rhan fwyaf o staff yn deall eu cyfrifoldebau ar gyfer diogelu. Fodd bynnag, nid yw ychydig iawn ohonynt yn gadarn o ran eu dealltwriaeth o'u rolau a'u cyfrifoldebau, gan gynnwys ychydig o aelodau o'r pwyllgor rheoli. Er enghraifft, pan ofynnwyd iddynt, nid oedd ychydig iawn o staff yn siŵr i bwy y dylent roi gwybod am unrhyw bryderon ynghylch diogelu yn yr UCD. Mae hyfforddiant diogelu blynyddol priodol ar waith ar gyfer pob aelod o staff.

Mae system sy'n briodol o gadarn ar waith i storio'r holl wybodaeth am ddiogelu disgyblion sy'n hygyrch i'r arweinwyr diogelu dynodedig yn unig. Rhennir gwybodaeth berthnasol gyda staff. Mae'r system yn galluogi'r arweinwyr diogelu i weld gwybodaeth, cynnydd ac olrhain atgyfeiriadau i wasanaethau plant a nodi unrhyw dueddiadau a phatrymau yn yr atgyfeiriadau hyn.

Mae gweithio mewn partneriaeth ag ystod eang o asiantaethau, er enghraifft gwasanaethau cymdeithasol a'r heddlu, ar waith. Mae'r cydweithio hwn yn cefnogi anghenion disgyblion yn llwyddiannus. Mae'r arweinwyr diogelu dynodedig yn gweithio ar y cyd â thîm diogelu'r awdurdod lleol i gwblhau'r archwiliad diogelu blynyddol. Mae hyn yn helpu'r UCD i nodi beth sy'n gweithio'n dda a meysydd i'w gwella.

Mae'r cwricwlwm ABCh yn atgyfnerthu a hyrwyddo dealltwriaeth disgyblion o sut i'w cadw eu hunain yn ddiogel yn briodol. Er enghraifft, caiff disgyblion wersi ar iechyd meddwl a lles, sy'n canolbwyntio ar herio bwlio, camddefnyddio sylweddau a phroblemau'n ymwneud â delwedd y corff.

Mae'r polisi diogelu yn fanwl ac yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol am atgyfeirio. Fodd bynnag, caiff y polisi ei weithredu'n anghyson ar draws yr UCD. Yn benodol, nid oes gan staff strategaethau addas i reoli defnydd disgyblion o ffonau symudol personol yn ystod y dydd. Mae staff yn defnyddio eu ffonau symudol personol i ddefnyddio ap i gofnodi gwaith disgyblion a rhannu gwybodaeth. Daethpwyd â sawl pryder yn ymwneud â threfniadau rheoli traffig a diogelwch safle at sylw'r pwyllgor rheoli a'r awdurdod lleol.

O ganlyniad, nid yw trefniadau'r UCD i gadw disgyblion yn ddiogel yn bodloni'r gofynion, ac maent yn destun pryder.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae'r uwch dîm arweinyddiaeth yn yr UCD yn cynnwys y pennaeth a dau bennaeth cynorthwyol nad ydynt yn addysgu. Er mis Medi 2022, mae arweinwyr wedi cryfhau

dosbarthiad cyfrifoldebau arwain ac wedi rhoi eglurder i staff ar eu rolau a'u cyfrifoldebau ar draws yr UCD. Yn ychwanegol, mae arweinwyr a staff wedi diwygio gweledigaeth a gwerthoedd yr UCD yn ddiweddar i adlewyrchu'r ddarpariaeth yn well. Fodd bynnag, mae'r datblygiadau hyn yn rhai diweddar iawn, ac nid ydynt wedi cael digon o amser i effeithio ar feysydd allweddol sydd angen eu gwella, fel ansawdd yr addysgu a'r dysgu, diogelu a phresenoldeb disgyblion.

Nid oes gan arweinwyr weledigaeth strategol a digon clir sy'n cael ei rhannu â gweddill y staff ar gyfer datblygu'r UCD a chodi safonau.

Dros gyfnod, mae arweinwyr wedi ymwneud yn ormodol â materion gweithredol o ddydd i ddydd, ac nid oes ganddynt ymagwedd strategol at hunanwerthuso a chynllunio gwelliant. O ganlyniad, nid yw prosesau a strwythurau i sicrhau bod yr UCD yn gallu gwella wedi'u datblygu'n ddigonol o gryn dipyn. Mae hyn yn effeithio ar effeithiolrwydd sawl agwedd ar yr UCD, er enghraifft cynllunio'r cwricwlwm, ac mae datblygiad yn anghyson ac yn cyfyngu ar allu athrawon i gynllunio ar gyfer cynnydd disgyblion yn ddigon trylwyr.

Mae prosesau hunanwerthuso yn aneffeithiol a heb eu datblygu'n ddigonol gan arweinwyr. Mae'r rhan fwyaf o staff yn aneglur ynghylch beth yw'r blaenoriaethau ar gyfer cynllunio gwelliant yn yr UCD. Mae gan y cynllun datblygu lawer o flaenoriaethau a chamau gweithredu, sy'n fanwl, ond mae gormod o ailadrodd. Ni chaiff staff gyfle i gyfrannu at gynllun datblygu'r UCD, ac felly, nid yw'r arweinwyr yn blaenoriaethu'r holl elfennau pwysig sydd angen eu gwella.

Mae prosesau ar gyfer sicrhau ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer cynnydd disgyblion yn aneffeithiol. Er bod y prosesau hyn yn cynnwys casglu a dadansoddi data ar berfformiad, nid yw arweinwyr yn gwybod a yw disgyblion yn gwneud y cynnydd y gallant ei gyflawni yn gyson, am nad oes ganddynt ddata a gwybodaeth gadarn am safonau disgyblion. Nid yw arsylwadau gwersi a chraffu ar waith disgyblion ar draws y cwricwlwm ar waith yn ffurfiol ar draws yr UCD. O ganlyniad, nid yw hunanwerthuso yn rhoi sylw digon manwl i wella cyflawniad disgyblion, ac nid yw gweithdrefnau wedi arwain at godi safonau a gwella ansawdd y ddarpariaeth eto.

Nid yw rheoli perfformiad ar gyfer staff wedi cael ei sefydlu. O ganlyniad, ni chaiff staff gyfle i gael deialog broffesiynol ffurfiol gydag arweinwyr a gosod targedau perthnasol i gefnogi cyflawni'r blaenoriaethau gwella.

Mae lefelau staffio ar draws y ddau safle yn darparu cymhareb uchel staff i ddisgyblion. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn elwa ar gymorth un i un trwy gydol y dydd. Mae diwylliant o gydweithio rhwng staff yn gryf ar bob un o safleoedd yr UCD. Fodd bynnag, megis dechrau datblygu y mae'r cydweithio rhwng staff cynradd ac uwchradd. Ar hyn o bryd, ceir cyfleoedd cyfyngedig i ddisgyblion elwa ar brofiadau dysgu ehangach y gall staff eu darparu, er enghraifft disgyblion iau yn elwa ar weithgareddau celf wedi'u cyflwyno gan staff uwchradd arbenigol.

Nid yw arweinwyr wedi nodi a mynd i'r afael â llawer o bryderon ynghylch diogelu yn yr UCD.

Mae cyfarfodydd staff wythnosol ar gyfer athrawon wedi cael eu cyflwyno yn ddiweddar. Gall staff cymorth fynychu'r sesiynau hyn, ond maent yn rhy anfynych ac anghyson. Mae'n rhy gynnar i werthuso effaith y cyfarfodydd hyn.

Mae ystod ac ansawdd y cyfleoedd dysgu proffesiynol ar gyfer staff yn rhy amrywiol. Yn ychwanegol, nid ydynt yn cyd-fynd yn ddigon agos â blaenoriaethau'r UCD ar gyfer gwella a nodwyd yn y cynllun datblygu.

Er bod y pwyllgor rheoli yn dangos ymrwymiad i gefnogi arweinwyr, nid yw'n herio arweinyddiaeth strategol yr UCD yn ddigon da. Mae'r pennaeth yn cydweithio â swyddogion yr awdurdod lleol. Fodd bynnag, mae'r pennaeth yn parhau i fod yn aneglur ynglŷn â rôl yr UCD yn yr awdurdod lleol. Mae'r diffyg eglurder hwn yn rhwystro cyflymdra cynnydd yn yr UCD.

Mae'r pennaeth yn cyfarfod bob hanner tymor gyda swyddog cyllid yr awdurdod lleol i adolygu'r gwariant ariannol yn yr UCD. Mae dyraniad adnoddau ariannol yn dechrau cyd-fynd yn agosach â'r cynllun datblygu. Fodd bynnag, megis dechrau datblygu y mae hyn, ac mae'n rhy gynnar i roi sylwadau ar ei effaith.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol / pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol / UCD a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr / pwyllgor rheoli, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol / UCD
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion, lle bo'n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol / UCD, lle bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol / UCD
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol / UCD ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r ysgol / UCD wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol / UCD, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol / pwyllgor rheoli, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2022: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  29/11/2022